Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg y Cwm**
**Heol Jersey**
**Bôn-y-maen**
**Abertawe**
**SA1 7DL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg y Cwm yn ysgol gynradd newydd sydd wedi ei lleoli ym mhentref Bôn-y-Maen, Abertawe. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys ardal Winsh-Wen, Bôn-y-Maen, Pentrechwyth, San Tomas a Phort Tennant. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2012 ar ei safle presennol.

Ers mis Medi eleni, mae'r ysgol yn derbyn disgyblion hyd at flwyddyn tri yn unig. Mae 94 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 32 o ddisgyblion rhan amser yn y dosbarth meithrin. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan yr ysgol 4 dosbarth, gan gynnwys 1 dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 30% o ddisgyblion yn gymwys ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 14% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan un plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref.

Penodwyd y pennaeth ym mis Mawrth 2012. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg y Cwm yn 2015-2016 yw £4,772. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,006 a'r lleiafswm yw £2,556. Mae Ysgol Gymraeg y Cwm yn y pumed safle o'r 79 ysgol gynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da, maent yn frwdfrydig tuag at eu dysgu ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion
- medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith ac yn darllen gyda rhuglder a mynegiant clir
- staff yn rheoli ymddygiad yn feistrolgar ac yn sensitif ac, o ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- yr ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn ddychmygus i hyrwyddo balchder ac ymrwymiad y disgyblion i wneud eu gorau
- ethos o gydfodolaeth a chydweithrediad agos sydd yn bodoli lle mae disgyblion a staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel
- y dirprwy bennaeth yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac mae arweinwyr yn darparu arweiniad effeithiol a phwrpasol ar gyfer yr ysgol
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm
- llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol, sy'n herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol
- gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu cadarn ac mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda
- arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir yn y cynllun gwella ysgol
- gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion, gan gynnwys perthynas gref gyda rhieni

## Argymhellion

A1 Cynllunio’n fwriadus i sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion ar draws pob maes dysgu a phwnc

A2 Sicrhau gwahaniaethu pwrpasol er mwyn herio disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Cryfhau gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall sut y gallant wella'u gwaith, a chynnig cyfleoedd priodol iddynt ymateb i adborth yr athrawon

A4 Adolygu deilliannau’r gweithdrefnau monitro yn fwy rheolaidd er mwyn mesur cynnydd

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau isel ar gyfer eu hoed. Er hyn, maent yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddewis gwrthrychau i fynd i'r lleuad a'u gosod o ran eu pwysigrwydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

O ystyried eu man cychwyn, yn enwedig eu gallu i siarad yr iaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gafael yn y Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymateb i gyfarwyddiadau yn dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol a phatrymau brawddegau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drafod eu gwaith, gan fynegi eu syniadau yn glir a chyda pheth chywirdeb. Mae medrau llafaredd Saesneg bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae medrau darllen cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n llwyddiannus. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am seiniau llythrennau ac maent yn adeiladu geiriau yn systematig. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant clir. Maent yn adnabod nodweddion llyfrau yn dda. Mae uwch fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion mwy abl yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am blanedau mewn llyfrau ffeithiol. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon yn y Gymraeg ac mae medrau darllen Saesneg bron pob disgybl yn datblygu yn unol â'u gallu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd parhaus o ran datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu brawddegau syml yn gymwys. Maent yn atalnodi'n gywir gan ddefnyddio priflythrennau, atalnod llawn a dyfynodau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion mwy abl yn newid dechrau brawddegau yn llwyddiannus ac yn defnyddio ystod eang o ansoddeiriau i greu effaith. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ystod berthnasol o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio'r rhain yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i goginio uwd. Erbyn Blwyddyn 3, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw ysgrifennu adroddiad o Dân Mawr Llundain yn Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adio rhifau tri digid yn fedrus. Maent yn darllen yr amser ar glociau analog a digidol i'r hanner awr a chwarter awr agosaf. Mae llawer yn datblygu eu medrau datrys problemau yn briodol. Erbyn Blwyddyn 3, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn addas ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur cysgodion yn ystod arbrawf gwyddonol i'r centimetr agosaf.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gyda gofal gan fod y niferoedd bychain o ddisgyblion mewn blwyddyn yn effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Gan mai blwyddyn yn unig o ddata cyrhaeddiad sy'n bodoli, nid yw'n bosibl dod i farn ar dueddiadau mewn perfformiad. Nid yw'n bosibl ychwaith barnu unrhyw batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion gan gynnwys cyflawniad y rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â gweddill y disgyblion.

Y llynedd, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliant 5 disgwyliedig mewn llythrennedd yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6, sy'n uwch na'r disgwyl, wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod y gallant droi at yr athrawon, aelodau staff a ffrindiau am gymorth pan fydd angen. Mae bron pob un yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini yn effeithiol.

Mae medrau dysgu annibynnol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn cydweithio'n effeithiol o fewn gwersi ac yn frwdfrydig tuag at eu dysgu. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'u targedau llythrennedd ac maent yn cyfeirio atynt yn addas i wella'u gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn lleisio barn am yr hyn maent eisiau ei ddysgu yn fedrus, er enghraifft wrth ddewis gweithgareddau i gyd-fynd â phob thema.

Mae bron pob un disgybl yn dangos parch, gofal a phryder tuag at ei gilydd. Maent yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gwaith eu hunain ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus. Mae bron pob un yn chwarae rhan werthfawr yn eu cymuned. Er enghraifft, maent yn codi arian ar gyfer nifer o elusennau. O ganlyniad, mae medrau rhyngbersonol y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgorau eco ac iach yn chwarae rhan flaenllaw ym mhenderfyniadau'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi cynllunio llwybr diogel o'r heol i'r ysgol ac maent wedi dylunio sticeri clod i annog disgyblion i wneud dewisiadau iach.

Mae'r canran presenoldeb yn dda ac mae'r perfformiad yr ysgol wedi gwella i fod yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ychydig o ddisgyblion, fodd bynnag, yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn ddyddiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn cynllunio'n fanwl ac yn darparu ystod o weithgareddau dysgu pwrpasol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Enghraifft dda o hyn yw 'Mercher

Mwdlyd' sy'n sbarduno dysgu yn yr awyr agored yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw'r cynlluniau tymor hir a chanolig yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau ar draws yr holl feysydd dysgu na phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn ymgorffori egwyddorion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn addas. Mae'r ddarpariaeth gynnar effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd drwy'r defnydd o sachau dysgu yn sicrhau datblygiad da ym medrau'r disgyblion yn yr ysgol a hefyd yn y cartref. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol, er enghraifft i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal ac am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy ymweliadau a mannau diddorol fel Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe a Llancaiach Fawr.

Darperir cyfleoedd buddiol i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd drwy weithgareddau fel ailgylchu ac arbed ynni. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth effeithiol o bwysigrwydd gofalu am y byd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth fuddiol gydag ysgol ym Mhatagonia. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarn ar ymwybyddiaeth disgyblion o'r byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob un o'r athrawon yn gweithio'n effeithiol gyda chynorthwywyr dosbarth i gynnig cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol yn y gwersi. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn darparu tasgau gwerthfawr iddynt, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn dda. Er hyn, nid yw tasgau bob tro'n cynnig digon o her i'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd mae staff yn rheoli ymddygiad yn feistrolgar ac yn sensitif. O ganlyniad, maent yn creu awyrgylch diogel lle gall disgyblion ddysgu yn llwyddiannus. Mae bron pob aelod o staff yn fodel iaith da. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gryfhau iaith lafar y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn amrywio ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhannu amcanion gwersi yn briodol gyda disgyblion. Defnyddia staff fedrau holi medrus i annog disgyblion i feddwl. Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol ar eu cyflawniadau. Er hyn, nid yw'r sylwadau bob tro'n rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith nac yn cynnig cyfleoedd priodol iddynt ymateb i adborth athrawon.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn effeithiol wrth gynllunio gwaith pellach iddynt. Defnyddiant brofion safonol a data olrhain cynnydd yn dda er mwyn cynnig cefnogaeth berthnasol. Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i hybu ffitrwydd disgyblion. Cefnogir hyn drwy ystod werthfawr o weithgareddau'r cwricwlwm, er enghraifft ymweliadau cyson gan arbenigwyr chwaraeon. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth lwyddiannus o bwysigrwydd cadw'n iach.

Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn ddychmygus. Mae'r 'Goeden Glod' a 'Disgleirio trwy Ddysgu' yn ganolog i fywyd yr ysgol ac yn hyrwyddo balchder ac ymrwymiad y disgyblion i wneud eu gorau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol drwy'r ethos gofalgar sy'n bodoli ynddi. Ceir cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion fyfyrio mewn gwasanaethau, er enghraifft drwy barchu teimladau ac emosiynau eu hunain ac eraill.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol fel yr heddlu, nyrs a'r gwasanaeth tân. Maent yn defnyddio'r rhain yn dda i gynnig cyngor arbenigol lle bo angen. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymwybodol o bobl sy'n eu helpu ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i ddatblygu, er enghraifft wrth ddysgu sut i fod yn ddiogel ar y we. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn cynnig cymorth ychwanegol effeithiol iddynt lle bo'r angen. Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion a gwna ddefnydd gwerthfawr o staff i gefnogi'r dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau unigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Un o gryfderau Ysgol Gymraeg y Cwm yw'r ethos o gydfodolaeth a chydweithrediad agos sy'n bodoli ynddi. Mae ethos cartrefol a hapus yr ysgol yn sicrhau bod y disgyblion a staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r arwyddair, 'Gwnewch y Pethau Bychain', yn sylfaen gadarn i'r awyrgylch gofalgar hwn.

Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau manwl i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob disgybl.

Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus o gwmpas yr ysgol yn cyfoethogi'r dysgu ac yn dathlu cyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol. Ceir cyflenwad da o adnoddau sy'n hyrwyddo'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ardaloedd allanol yn cynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion ac mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r rhain yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r ysgol wedi datblygu gardd atyniadol fel ardal ddysgu symbylus.

Mae'r ysgol yn cynllunio'r amgylchedd ffisegol i ymateb i dwf yn nifer y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r tir o gwmpas yr ysgol yn ddiogel ac mae'r adeilad, er yn hen, yn cael ei gadw'n lân a graenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae hi wedi rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i ddatblygu'r ysgol wrth iddi ehangu. Mae'r dirprwy bennaeth yn cefnogi'r pennaeth yn dda. O ganlyniad, mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth effeithiol a phwrpasol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn canolbwyntio'n effeithiol ar gyflawniad a chynnydd disgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd naturiol y mae'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm. Mae gan bob aelod staff swydd ddisgrifiad priodol ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llwyddiannus. Maent yn cefnogi'r arweinwyr â'u gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn dda. Mae ymrwymiad cryf yn bodoli ar draws yr ysgol i ddatblygu a hyrwyddo gwelliannau parhaus. Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth, yn codi safonau ac yn creu cyfeiriad strategol pendant.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn bodoli ac yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn addysgu a dysgu. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol yr holl staff yn dda trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar ddatblygu elfennau o lythrennedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Llwydda'r ysgol i ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae codi safonau llythrennedd a gweithredu'n effeithiol i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddeilliannau disgyblion yn enghreifftiau da o hyn. Rhoddir sylw da i lais y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent hwy ac arweinwyr yr ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth sefydlu ysgol newydd o fewn hen adeilad heriol. Maent yn cyfrannu'n dda at brosesau hunanarfarnu trwy drafod data cyrhaeddiad, arsylwi gwersi a monitro'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel ffrindiau beirniadol, sy'n herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'n canfod barn athrawon, disgyblion a rhieni yn effeithiol, er enghraifft drwy gryfhau'r ffyrdd y mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda nhw. Mae'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer cywain tystiolaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, deilliannau arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae'r adroddiadau monitro yn cofnodi deilliannau'r gweithdrefnau hyn yn

fanwl ac yn nodi’r materion i’w datblygu yn addas. Er hyn, nid yw arweinwyr yn ymweld â deilliannau’r weithdrefn monitro yn ddigon cyson i adolygu’r cynnydd a wnaed yn llawn.

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn gryno ac yn arfarnol. Mae’n rhoi darlun eglur o effaith y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth ar safonau a lles y disgyblion. Mae’n cynnig asesiad cywir o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w datblygu. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o’r adroddiad hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau clir yn y cynllun gwella ysgol. Mae’r cynllun yn fanwl ac yn nodi camau gweithredu buddiol ynghyd â nodi meini prawf llwyddiant, trefniadau monitro, cyfrifoldebau a chost yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy’n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion. Mae ganddi berthynas gref gyda rhieni. Mae cymdeithas y rhieni yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol cyson er mwyn datblygu a chefnogi’r berthynas rhyngddynt â’r ysgol. Mae ffocws arweinwyr yr ysgol ar hybu diwylliant agored a chydweithredol yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni yn effeithiol.

Mae partneriaeth lewyrchus lwyddiannus yn bodoli gydag ysgolion y clwstwr ac ysgol Gymraeg newydd arall yn yr ardal. Maent yn cydweithio’n bwrpasol er mwyn rhannu arbenigedd ac arfer dda yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a safon gwaith disgyblion, ac ar ddatblygiad proffesiynol staff. Er enghraifft, maent wedi cydweithio i wella’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu uwch fedrau darllen disgyblion. O ganlyniad, mae uwch fedrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n effeithiol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn gyda sefydliadau yn y gymuned leol, er enghraifft llyfrgell Treforus, y capel a’r eglwys leol, a thrwy wahodd ymwelwyr i’r ysgol. Mae’r partneriaethau hyn yn cyfoethogi’r profiadau’r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r cysylltiadau effeithiol sy’n bodoli gyda’r feithrinfa yn cyfrannu'n fuddiol at sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Er nad oes disgyblion yn yr ysgol eto, sydd o oed i drosglwyddo i’r ysgol uwchradd, mae’r staff wedi sefydlu partneriaeth werthfawr gyda hi ac yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynychu gweithdai yno. Mae hyn yn darparu’n effeithiol ar gyfer sicrhau trosglwyddo esmwyth i’r disgyblion ar gyfer y dyfodol.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a’r ysgol uwchradd fel rhan o drefniadau safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae’r arfer hon yn cael ei rhannu’n llwyddiannus o fewn yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bob aelod staff ddealltwriaeth effeithiol o safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a’r hyn fydd yn ddisgwyliedig ddiwedd cyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr yn dirprwyo athrawon a chynorthwywyr cymwys a brwdfrydig i addysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn defnyddio arbenigedd staff yn synhwyrol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau, er enghraifft wrth ddarparu ymyrraeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cyfraniad medrus y swyddog gweinyddol yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth a staff yr ysgol yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu buddiol sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i ysgolion gydweithio ac i staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn benodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefn rheoli perfformiad effeithiol sy'n cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus pob aelod o staff yn llwyddiannus. Mae ffocws yr hyfforddiant wedi'i gysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella ysgol. Mae trefniadau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cynllunio a monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol ac mae'r holl wariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio'r cyllid yn ofalus i ddatblygu dosbarthiadau ac adnoddau priodol wrth i'r ysgol dyfu. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau dysgu yn ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd i dargedu disgyblion anghenus.

O ystyried deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a'r arweiniad cadarn, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 28 | 18 | 9 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 32% | 0% | 4% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 28 | 26 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 28 | 24 | 3 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 11% | 4% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 28 | 22 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 79% | 18% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 27 | 12 | 14 | 0 | 1 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 44% | 52% | 0% | 4% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 28 | 18 | 9 | 0 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 64% | 32% | 0% | 4% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 28 | 23 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 82% | 14% | 4% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 25 | 11 | 12 | 1 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 44% | 48% | 4% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 20 | 6 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 74% | 22% | 0% | 4% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 22 | 4 | 0 | 1 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 81% | 15% | 0% | 4% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 28 | 21 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 75% | 21% | 4% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 20 | 16 | 4 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 18 | 6 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 21% | 11% | 4% | | |
| | | 50% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 28 | 22 | 4 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 79% | 14% | 4% | 4% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 27 | 15 | 9 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 56% | 33% | 7% | 4% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 27 | 17 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 8 | 6 | 0 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 11 | 12 | 2 | 1 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 42% | 46% | 8% | 4% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 28 | 18 | 9 | 0 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 64% | 32% | 0% | 4% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Mai Bates | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Cerian Lowri Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian James Collins | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.